## F. Asesiad o'r Effaith ar Fioamrywiaeth

Nod trosfwaol y Bil Mwyngloddiau a Chwareli (Tomenni Nas Defnyddir) (Cymru) (y Bil) yw diogelu lles dynol, drwy gyflwyno system gyson a chadarn o asesu, cofrestru, rheoli, monitro a goruchwylio tomenni nas defnyddir yng Nghymru. Diben y Bil yw gwneud darpariaeth i atal tomenni nas defnyddir rhag bygwth lles dynol oherwydd eu hansefydlogrwydd. Bydd y Bil yn cyflawni hyn drwy sefydlu cyfundrefn ar gyfer asesu, cofrestru, monitro a rheoli tomenni nas defnyddir.

Bydd y Bil yn sefydlu corff newydd, Awdurdod Tomenni Nas Defnyddir Cymru (yr Awdurdod) ac mae'n rhoi swyddogaethau i'r Awdurdod. Prif amcan yr Awdurdod, fel y darperir ar ei gyfer yn y Bil, yw sicrhau nad yw tomenni nas defnyddir yn bygwth lles dynol oherwydd eu hansefydlogrwydd. Bydd yr Awdurdod yn ymgymryd ag amrywiaeth o weithgareddau, gan gynnwys asesu ac, wedi hynny, categoreiddio tomenni nas defnyddir, swyddogaethau monitro a chreu a chynnal cofrestr electronig o domenni nas defnyddir.

Mae'r Bil hefyd yn rhoi'r gallu i'r Awdurdod ei gwneud yn ofynnol i berchennog tir ymgymryd â gweithrediadau ar dir, lle mae'n ystyried bod gweithrediadau o'r fath yn angenrheidiol i atal neu fynd i'r afael â bygythiadau i sefydlogrwydd tomen nas defnyddir, neu i sefydlogi tomen nas defnyddir neu ei hatal rhag troi'n fwy ansefydlog, er mwyn osgoi neu leihau bygythiadau, lle mae'n ystyried bod y fath weithrediadau'n angenrheidiol i gyflawni'r amcan a nodir yn y Bil. Rhaid i'r Awdurdod roi cyngor a chymorth i Weinidogion Cymru mewn perthynas â thomenni nas defnyddir a gall roi gwybodaeth a chyngor i unrhyw berson mewn perthynas â thomenni nas defnyddir.

Bydd dyletswydd ar yr Awdurdod i gydymffurfio â deddfwriaeth bresennol sy'n cynnwys:

1. Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015 a fydd yn ei gwneud yn ofynnol i'r Awdurdod osod a chyhoeddi amcanion gyda'r bwriad o fwyhau ei gyfraniad at gyflawni pob un o'r nodau llesiant (a ddiffinnir gan adran 4 o'r Ddeddf). Un o'r nodau hynny yw "Cymru gydnerth", sef, "Cenedl sy'n cynnal ac yn gwella amgylchedd naturiol bioamrywiol gydag ecosystemau iach gweithredol sy'n cynnal cydnerthedd cymdeithasol, economaidd ac ecolegol ynghyd â'r gallu i addasu i newid (er enghraifft, newid yn yr hinsawdd)."

2. Mae Deddf yr Amgylchedd (Cymru) 2016 (adran 6) yn ei gwneud yn ofynnol i awdurdodau cyhoeddus gynnal a gwella bioamrywiaeth wrth arfer swyddogaethau mewn perthynas â Chymru, ac wrth wneud hynny hyrwyddo cydnerthedd ecosystemau, i'r graddau sy'n gyson ag arfer y swyddogaethau hynny'n briodol.

    - Mae Polisi Adnoddau Naturiol Llywodraeth Cymru yn bolisi statudol sy'n gysylltiedig â gweithredu Deddf yr Amgylchedd (Cymru) 2016. Mae'r Polisi Adnoddau Naturiol yn nodi prif egwyddorion dull Llywodraeth Cymru o gyflawni 'Ffyniant i Bawb: y Strategaeth i Gymru' ac ymrwymiadau rhyngwladol Cymru.

Un o’r prif heriau y mae’r polisi hwn yn mynd i’r afael â hi yw gwella cydnerthedd ecosystemau drwy wella eu hamodau a lleihau’r pwysau arnynt a thrwy adeiladu rhwydweithiau ecoloegol.

- Mae Cynllun Gweithredu Adfer Natur Llywodraeth Cymru yn datgan ei uchelgais i wrthdroi’r dirywiad mewn bioamrywiaeth, am ei werth cynhenid, ac i sicrhau manteision parhaol i gymdeithas. Mae’r cynllun yn cynnwys chwe amcan ar gyfer gwrthdroi dirywiad bioamrywiaeth, y dylid eu defnyddio i helpu i ddatblygu ac arwain camau gweithredu i gydymffurfio â’r ddyletswydd adran 6.

Mae’r cynnydd a ragwelir mewn effeithiau o newid hinsawdd, fel y nodir yn yr Asesiad o Risgiau Newid Hinsawdd i Gymru, yn golygu y disgwylir i dirlithriadau ddigwydd yn fwy aml, a gall hyn achosi difrod sylweddol i gymunedau, seilwaith allweddol, a’r amgylchedd.

Yn ogystal ag effeithiau posibl newid hinsawdd ar domenni nas defnyddir, mae llawer o’r tomenni nas defnyddir yng Nghymru yn darparu, neu maent gerllaw, ecosystemau sy’n ffynnu ac maent hefyd yn cynnal cynefinoedd a bywyd gwyllt o bwysigrwydd lleol, rhanbarthol a chenedlaethol. Gallai methiant tomen gael effaith negyddol ar fioamrywiaeth Cymru. Gall rheoli tomenni nas defnyddir yn well helpu i leihau’r tebygolrwydd o ansefydlogrwydd ac o’r herwydd lleihau’r risg o effaith ar ecosystemau, cynefinoedd, a bywyd gwyllt presennol.

Bydd yr Awdurdod yn ymgymryd ag amrywiaeth eang o weithgareddau megis asesu a monitro tomenni nas defnyddir, a datblygu cynlluniau rheoli. Er nad ydynt yn ofyniad o dan y Bil, bydd cynlluniau rheoli yn bwysig i gymhwyso’r gyfundrefn. Bydd y cynlluniau hyn yn darparu strategaeth reoli ragweithiol, gymesur ar gyfer tomen nas defnyddir. Byddant yn ystyried bioamrywiaeth pob tomen nas defnyddir ac yn tynnu sylw at ddeddfwriaeth amgylcheddol berthnasol. (Bydd yr Awdurdod yn cynhyrchu cynlluniau rheoli ar gyfer y categori risg uchaf o tommeni (categorïau C a D), ac fesul achos a yw cynllun yn briodol ar gyfer yr tommeni nas defnyddir categorïau is (categori A a B).

Bydd cynlluniau rheoli yn ystyried natur unigryw pob tomen nas defnyddir ac yn ystyried y cyfyngiadau safle-benodol a allai benderfynu strategaeth parodrwydd ar gyfer argyfwng, ymateb i ddigwyddiadau ac adfer. Bydd cyfyngiadau o’r fath yn cynnwys agosrwydd safleoedd ecolegol dynodedig, lleoliad seilwaith allweddol cyfagos neu ryngweithio â chyrsiau dŵr dynodedig. Nod y Bil yw lleihau’r tebygolrwydd o fethiannau yn y dyfodol ac o ganlyniad lleihau’r effeithiau negyddol hyn. Yn ogystal, mae manteision bioamrywiaeth ehangach cysylltiedig wrth wella rheoli lleoliadau tomenni nas defnyddir (e.e. lleihau erydiad pridd, atal llygredd ac annog sefydlu llystyfiant).

Yn seiliedig ar yr wybodaeth gyfredol, dyma nifer y tomenni glo nas defnyddir, sydd yn gyfan gwbl neu’n rhannol, ym mhob un o’r dynodiadau amgylcheddol sydd wedi’u rhestru (Tabl 1). Bydd y rhifau hyn yn debygol o newid.

Tabl 1 – Nifer y tomenni presennol fesul dynodiad

| **Dynodiad** | **Nifer y tomenni o fewn y safle** |
| --- | --- |
| Gwarchodfa Natur Leol | 28 |
| Gwarchodfa Natur Genedlaethol | 7 |
| Ardal Gwarchodaeth Arbennig | 3 |
| Ardaloedd o Harddwch Naturiol Eithriadol | 20 |
| Ardaloedd Cadwraeth Arbennig | 32 |
| Safleoedd o Ddiddordeb Gwyddonol Arbennig | 99 |
| Parc Cenedlaethol | 69 |

**<u>Ymwreiddio bioamrywiaeth</u>**

**1. Sut y bydd eich cynnig yn integreiddio bioamrywiaeth wrth wneud penderfyniadau?**

- ***A ydych wedi ystyried yr effeithiau, a’r cyfleoedd cadarnhaol i weithredu er budd bioamrywiaeth yng nghamau cynnar meddwl neu ddylunio’r prosiect?***

Rhaid i'r Awdurdod fel awdurdod cyhoeddus o dan Ddeddf yr Amgylchedd (Cymru) 2016 geisio cynnal a gwella bioamrywiaeth wrth arfer ei swyddogaethau mewn perthynas â Chymru, ac wrth wneud hynny hyrwyddo cydnerthedd ecosystemau, i'r graddau sy'n gyson ag arfer y swyddogaethau hynny'n briodol a pharatoi a chyhoeddi cynllun sy'n nodi'r hyn y mae'n bwriadu ei wneud i gydymffurfio â hyn (adran 6(6) o Ddeddf 2016).

Yn unol â'i brif amcan, rhaid i'r Awdurdod hyrwyddo safonau uchel mewn perthynas â rheoli tomenni nas defnyddir. Er nad ydynt yn rhwymedigaeth statudol, bydd cynlluniau rheoli yn rhan bwysig o’r gyfundrefn newydd. Bydd Gweinidogion Cymru yn datblygu canllawiau i’r Awdurdod ar gynlluniau rheoli. Bydd y canllawiau yn ei gwneud yn glir y bydd angen i'r Awdurdod wrth ddatblygu cynlluniau rheoli ystyried deddfwriaeth a chanllawiau cyfredol, megis Deddf yr Amgylchedd (Cymru) 2016. Yn ogystal, bydd y canllawiau yn cyfeirio at arfer gorau cyfredol ac yn cynghori'r Awdurdod ar weithio gyda chyrff eraill i ddatblygu cynlluniau rheoli lle bo hynny'n briodol, gan gynnwys ceisio mewnbwn gan randdeiliaid perthnasol, megis grwpiau amgylcheddol ac ecolegol.

Bydd gwerthuso parhaus drwy rwymedigaethau statudol yr Awdurdod, fel y nodir yn y Bil, gan gynnwys paratoi cynllun corfforaethol ar sut y mae’n bwriadu cyflawni ei swyddogaethau a pharatoi adroddiad blynyddol i’w osod gerbron y Senedd. Fel rhan o'r rhwymedigaethau hyn, bydd yr Awdurdod yn gallu ystyried ei ryngweithio â chyfundrefnau amgylcheddol eraill ac effeithiolrwydd ei berthnasoedd gweithio gyda chyrff statudol cyfundrefnau cysylltiedig. Bydd hyn yn cynnwys sut y mae o dan Ddeddf yr Amgylchedd (Cymru) 2016 (adran 6) wedi cynnal a gwella bioamrywiaeth wrth arfer ei swyddogaethau ac wedi hyrwyddo cydnerthedd ecosystemau, i'r graddau sy'n gyson ag arfer y swyddogaethau hynny'n briodol.

**A yw eich cynnig wedi sicrhau ystyried bioamrywiaeth wrth wneud penderfyniadau busnes?**

Ydy, rhaid i’r Awdurdod fel awdurdod cyhoeddus o dan Ddeddf yr Amgylchedd (Cymru) 2016 geisio cynnal a gwella bioamrywiaeth wrth arfer ei swyddogaethau mewn perthynas â Chymru, ac wrth wneud hynny hyrwyddo cydnerthedd ecosystemau, i'r graddau sy'n gyson ag arfer y swyddogaethau hynny'n briodol (gweler yr ymateb i gwestiwn 1 uchod).

**2. Sut mae eich cynnig yn gwella dealltwriaeth ac yn codi ymwybyddiaeth o bwysigrwydd bioamrywiaeth, gan annog eraill i weithredu?**

Bydd y gyfundrefn newydd yn sefydlu ac yn annog arfer gorau wrth reoli tomenni nas defnyddir yng Nghymru gyda manteision cysylltiedig eang, bydd hyn yn cynnwys codi ymwybyddiaeth o bwysigrwydd bioamrywiaeth. Bydd yr Awdurdod yn ceisio ymgysylltu â rhanddeiliaid a sefydlu perthnasoedd gweithio cryf i hyrwyddo arfer gorau.

Mae’r ecosystemau unigryw, sensitif ac yn aml ffyniannus a gynhelir gan domenni glo nas defnyddir yn dra hysbys, a chydnabyddir eu bod yn cynnal cynefinoedd a bywyd gwyllt o gryn bwysigrwydd lleol, rhanbarthol a chenedlaethol.

Rhaid i’r Awdurdod fel awdurdod cyhoeddus o dan Ddeddf yr Amgylchedd (Cymru) 2016 geisio cynnal a gwella bioamrywiaeth wrth arfer ei swyddogaethau mewn perthynas â Chymru, ac wrth wneud hynny hyrwyddo cydnerthedd ecosystemau, i'r graddau sy'n gyson ag arfer y swyddogaethau hynny'n briodol.

- ***A ydych wedi defnyddio’r dystiolaeth orau sydd ar gael o fioamrywiaeth i lywio eich cynnig a’r asesiad hwn?***

Mae cryn adnoddau wedi’u neilltuo i’r gwaith cynhwysfawr o fapio ac arfarnu tomenni glo nas defnyddir yng Nghymru. Mae hyn, er enghraifft, wedi caniatáu dadansoddi geo-ofodol manwl i gefnogi datblygu’r cynnig. Mae **Tabl 1** yn cynnwys allbynnau lefel uchel o’r dadansoddi hwn.

Mae tystiolaeth a dderbyniwyd gan randdeiliaid, diwydiant ac arbenigwyr pwnc cydnabyddedig wedi cael ei defnyddio i lywio datblygiadau’r cynnig, er enghraifft y rhestrau rhywogaethau a chynefinoedd o brif bwysigrwydd a gyhoeddwyd o dan adran 7 o Ddeddf yr Amgylchedd (Cymru) 2016; Adroddiad o Gyflwr Adnoddau Naturiol 2016 a datganiadau ardal cyhoeddedig CNC perthnasol.

Fel rhan o gynigion y Bil, rydym hefyd wedi ystyried gwybodaeth sy’n ymwneud â’r rhywogaethau, y cynefinoedd a’r ecosystemau ehangach sydd wedi ymsefydlu ar ystad y tomenni nas defnyddir, neu sydd wedi elwa ohono.

**3. A ydych wedi defnyddio’r wybodaeth ddiweddaraf am yr effeithiau allweddol ar fioamrywiaeth i wneud penderfyniadau ar sail tystiolaeth?**

- A ydych yn gwybod beth yw’r sbardunwyr newid a’r ffactorau negyddol allweddol a allai godi o’ch cynnig?
- A ydych yn fodlon nad yw’r rhain yn berthnasol neu eu bod wedi’u hosgoi?

Mae mapio ac arfarnu cynhwysfawr o domenni glo nas defnyddir yng Nghymru wedi creu set ddata gyntaf o’i math sydd wedi cefnogi datblygu’r cynnig. Mae'r set ddata tomenni wedi caniatáu arfarnu ac asesu yn erbyn setiau data geo-ofodol perthnasol sy'n gysylltiedig â’r amgylchedd a bioamrywiaeth.

Mae tystiolaeth a dderbyniwyd gan randdeiliaid, diwydiant ac arbenigwyr pwnc cydnabyddedig wedi cael ei defnyddio i lywio datblygiadau’r cynnig. Mae hyn yn cynnwys gwybodaeth sy’n ymwneud â’r rhywogaethau, y cynefinoedd a’r ecosystemau ehangach sydd ar ystad y tomenni nas defnyddir, neu sydd wedi elwa ohono.

Rydym yn fodlon bod effeithiau posibl ar fioamrywiaeth wedi cael eu hystyried a’u lliniaru neu eu hosgoi i raddau helaeth.

**4. A all eich cynnig o bosib gyfrannu at ein corff o wybodaeth ar gyfer bioamrywiaeth?**

Gallai'r ddyletswydd ar yr Awdurdod i asesu a monitro tomenni nas defnyddir gyfrannu o ganlyniad at ddeall yn well y fioamrywiaeth sydd ar safleoedd tomenni nas defnyddir a thir cyfagos i'r graddau bod hyn yn gyson ag arfer dyletswyddau'r Awdurdod. Bydd yr wybodaeth i'w dal gan yr Awdurdod yn cynnwys gwybodaeth sy'n ymwneud â bioamrywiaeth ar safleoedd tomenni nas defnyddir, sydd wedi'i chasglu a'i chofnodi fel rhan o swyddogaeth a gweithrediadau'r gyfundrefn.

Gan ddefnyddio pwerau o dan adran 58A o Ddeddf Llywodraeth Cymru 2006, mae Gweinidogion Cymru yn bwriadu cyhoeddi canllawiau i'r Awdurdod ar sawl maes gan gynnwys archwiliadau a monitro, apelau, digolledu, codi tâl a chynlluniau rheoli. Bydd Gweinidogion Cymru yn sicrhau y bydd canllawiau i'r Awdurdod yn talu sylw i ddeddfwriaeth a chanllawiau presennol mewn perthynas â'r amgylchedd a bioamrywiaeth. Yn ogystal, bydd yr holl asesiadau effaith priodol yn cael eu cynnal ac ymgysylltu ac ymgynghori â rhanddeiliaid lle bo hynny'n briodol. Bydd adran 69 o'r Bil yn ei gwneud yn ofynnol i'r Awdurdod roi sylw i ganllawiau o'r fath wrth arfer ei swyddogaethau.

Mae adran 6 o Ddeddf yr Amgylchedd 2016 yn gosod dyletswydd ar yr Awdurdod fel awdurdod cyhoeddus i gynnal a gwella bioamrywiaeth wrth arfer ei swyddogaethau mewn perthynas â Chymru, ac wrth wneud hynny hyrwyddo cydnerthedd ecosystemau, i'r graddau sy'n gyson ag arfer y swyddogaethau hynny'n briodol. Mae'r ddyletswydd yn gosod bioamrywiaeth fel rhan naturiol ac annatod o lunio polisïau a phenderfyniadau o fewn awdurdod cyhoeddus. Bydd Gweinidogion Cymru yn datblygu canllawiau i'r Awdurdod ar gynlluniau rheoli a fydd yn ei gwneud yn glir bod disgwyl i'r Awdurdod lunio cynlluniau rheoli ar gyfer tomenni nas defnyddir categori uchaf (categori C a D), ac ystyried fesul achos a yw cynllun rheoli yn briodol ar gyfer tomenni nas defnyddir categori is (categori A a B).

Bydd cynlluniau rheoli yn cofnodi manylion sy'n ymwneud â bioamrywiaeth, yn ogystal â chyngor ac argymhellion ynghylch casglu gwybodaeth, trosglwyddo gwybodaeth ac arfer da. Bydd yr Awdurdod yn cyfeirio at wybodaeth am fioamrywiaeth (megis cynefinoedd, ecosystemau a chofnodion rhywogaethau) wrth ddatblygu cynlluniau rheoli ar gyfer tomenni nas defnyddir a bydd yn gyfarwydd â deddfwriaeth a chanllawiau perthnasol mewn perthynas â'r amgylchedd a bioamrywiaeth.

Er enghraifft, bydd yr Awdurdod yn ymgynghori ag ecolegwyr mewn perthynas â lleoli peirianneg ar domenni nas defnyddir gyda'r awdurdod cynllunio. Bydd ymgysylltu â grwpiau rhanddeiliaid, lle bo hynny'n briodol, wrth i bolisi gael ei ddatblygu.

## <u>Llywodraethiant a chefnogaeth i gyflawni gweithredu ar fioamrywiaeth</u>

**5. A all eich cynnig gefnogi gweithredu ar fioamrywiaeth mewn unrhyw ffordd?**

Nod y Bil yw lleihau tebygolrwydd methiannau tomenni yn y dyfodol ac o ganlyniad lleihau effeithiau negyddol cysylltiedig ar ecosystemau bioamrywiaeth a thomenni Cymru.

Rhaid i'r Awdurdod fel awdurdod cyhoeddus o dan Ddeddf yr Amgylchedd (Cymru) 2016 geisio cynnal a gwella bioamrywiaeth wrth arfer ei swyddogaethau mewn perthynas â Chymru, ac wrth wneud hynny hyrwyddo cydnerthedd ecosystemau, i'r graddau sy'n gyson ag arfer y swyddogaethau hynny'n briodol.

Bydd y gyfundrefn newydd yn sefydlu ac yn annog arfer gorau wrth reoli tomenni nas defnyddir yng Nghymru gyda'r posibilrwydd o fanteision cysylltiedig ar gyfer cyflawni gweithredu ar fioamrywiaeth. Er enghraifft, gall rheoli tomenni nas defnyddir yn well, fel mae'r Asesiad Effaith Rheoleiddiol yn esbonio, hefyd gwella gwerth bioamrywiaeth bresennol pyllau glo oherwydd wrth natur maent yn brin o faethynnau sy'n atal rhywogaethau trech rhag cymryd drosodd.

Bydd yr Awdurdod yn cyfeirio at wybodaeth am fioamrywiaeth (megis cynefinoedd, ecosystemau a chofnodion rhywogaethau) wrth ddatblygu cynlluniau rheoli ar gyfer tomenni nas defnyddir a bydd yn gyfarwydd â deddfwriaeth a chanllawiau presennol mewn perthynas â'r amgylchedd a bioamrywiaeth. Nid yw'r Bil yn diddymu unrhyw ddeddfwriaeth sydd ar waith i ddiogelu rhywogaethau a chynefinoedd. Lle mae gofynion cyfreithiol eisoes yn bodoli, mae'r Bil wedi'i lunio i weithio gyda'r rhain.

Mae'r fioamrywiaeth sydd i'w chanfod ar safleoedd tomenni nas defnyddir yn cynnwys dros 900 o rywogaethau di-asgwrn-cefn wedi'u cofnodi, gyda 22% ohonynt o lefel blaenoriaeth cadwraeth yn y DU. Yn bwysig, dylid cynnal ymyriadau ffisegol, sydd eu hangen i wneud rhai tomenni nas defnyddir yn fwy diogel, mewn modd sy'n lleihau'r effaith ar fioamrywiaeth ac sy'n adfer cynefinoedd priodol ar gyfer y dyfodol.

### 6. A all eich cynnig helpu i feithrin gallu ar gyfer gweithredu ar fioamrywiaeth?

Mewn rhai achosion, bydd y system newydd yn diogelu cynefinoedd presennol ac yn cefnogi cynnal a gwella rhwydweithiau ecolegol cydnerth, trwy leihau'r tebygolrwydd o ansefydlogrwydd y tomenni a sefydlu arferion rheoli tir gwell ar ystad y tomenni nas defnyddir yng Nghymru.

Bydd canllawiau a gyhoedddir gan Weinidogion Cymru yn hyrwyddo arferion ac egwyddorion i feithrin gallu ar gyfer gweithredu ar fioamrywiaeth.

Bydd sefydlu'r Awdurdod yn gorff arbenigol newydd yn y gwaith o reoli a rheoleiddio tomenni nas defnyddir o fudd anuniongyrchol i weithredu ar fioamrywiaeth.

### 7. A ydych wedi cofnodi penderfyniadau a chamau gweithredu i gynnal a gwella bioamrywiaeth?

Nid yw'r Bil yn gwneud unrhyw ddarpariaethau penodol mewn perthynas â chynnal neu wella bioamrywiaeth.

Fodd bynnag, rhaid i'r Awdurdod fel awdurdod cyhoeddus o dan Ddeddf yr Amgylchedd (Cymru) 2016 geisio cynnal a gwella bioamrywiaeth wrth arfer ei

swyddogaethau mewn perthynas â Chymru, ac wrth wneud hynny hyrwyddo cydnerthedd ecosystemau, i'r graddau sy'n gyson ag arfer y swyddogaethau hynny'n briodol (adran 6(1)). O dan adran 6(6), rhaid i'r Awdurdod baratoi a chyhoeddi cynllun sy'n nodi'r hyn y mae'n bwriadu ei wneud i gydymffurfio ag a.6(1). O dan adran 6(7), rhaid i'r Awdurdod gyhoeddi adroddiad ar yr hyn y mae wedi'i wneud i gydymffurfio ag is-adran 6(1), bob tair blynedd.

Yn ei gynllun corfforaethol, rhaid i'r Awdurdod nodi sut mae'n bwriadu cyflawni ei swyddogaethau o dan y Bil yn ystod pob cyfnod cynllunio. Mae'r Bil hefyd yn ei gwneud yn ofynnol i'r Awdurdod baratoi a chyhoeddi adroddiad blynyddol cyn gynted ag y bo'n rhesymol ymarferol ar ôl diwedd pob blwyddyn ariannol ar arfer ei swyddogaethau yn ystod y flwyddyn ariannol honno. Lle bo'n berthnasol i swyddogaethau'r Awdurdod, gall y cynllun corfforaethol a'r adroddiad blynyddol gynnwys cyfeirio at benderfyniadau a chamau gweithredu i gynnal a gwella bioamrywiaeth.

**Os yw eich cynnig yn ymwneud ag adeiladu neu reoli tir a/neu'r môr, ystyriwch hefyd Gwestiynau 10 – 16:**

**<u>Diogelu rhywogaethau a chynefinoedd o bwysigrwydd pennaf</u>**

**8. A oes cydymffurfio â'r holl ddeddfwriaeth i sicrhau diogelu rhywogaethau a chynefinoedd morol a daearol?**

- A oes unrhyw ofyniad am drwyddedau, monitro a/neu orfodi wedi'i ystyried a'i weithredu?
- A oes unrhyw ofyniad am Asesiad o'r Effaith Amgylcheddol/Asesiad Amgylcheddol Strategol/Asesiad Rheoliadau Cynefinoedd wedi'i nodi a'i weithredu?
- A oes unrhyw effeithiau neu gyfleoedd am gamau gweithredu cadarnhaol ar gyfer rhywogaethau a chynefinoedd Adran 7 wedi'u nodi a'u gweithredu?

Nid yw'r Bil yn diddymu unrhyw ddeddfwriaeth sy'n sicrhau diogelu rhywogaethau a chynefinoedd morol a daearol. Mae'r Bil wedi'i lunio i fod yn ystyriol o'r dirwedd ddeddfwriaethol bresennol mewn perthynas â'r amgylchedd. Fel y soniwyd uchod, mae Deddf yr Amgylchedd (Cymru) 2016 (adran 6) yn ei gwneud yn ofynnol i awdurdod cyhoeddus geisio cynnal a gwella bioamrywiaeth wrth arfer ei swyddogaethau mewn perthynas â Chymru, ac wrth wneud hynny hyrwyddo cydnerthedd ecosystemau, i'r graddau sy'n gyson ag arfer y swyddogaethau hynny'n briodol. Ymgynghorwyd â'r holl awdurdodau statudol perthnasol ac maent wedi cyfrannu at ddatblygu'r polisi, gan sicrhau bod ystyriaeth fanwl wedi'i rhoi i'r holl ddeddfwriaeth sy'n ymwneud â diogelu rhywogaethau a chynefinoedd.

**9. A yw'r cynnig yn ceisio cynnal a gwella bioamrywiaeth <u>yn gyntaf</u>?**

- A ydych wedi dewis yr opsiwn sy'n osgoi colli a/neu ddifrodi bioamrywiaeth, ac sy'n hyrwyddo cydnerthedd ecosystemau?
- Dim ond lle mae cydbwysedd y manteision amgylcheddol, economaidd, cymdeithasol a diwylliannol a ddarperir gan eich cynnig yn golygu y gallai fod rhywfaint o golli cynefinoedd neu rywogaethau, a ydych wedi ceisio gwella bioamrywiaeth mewn mannau eraill ar y safle, neu, le nad oes opsiwn arall, oddi ar y safle?

- A yw eich cynnig yn cyfrannu at gynnal a gwella bioamrywiaeth ledled Cymru?

Nid yw'r system newydd yn effeithio'n uniongyrchol ar fioamrywiaeth nac yn cyfrannu at ei cholli neu ei difrodi.

Bydd y cynigion yn cyfrannu'n ddeilliadol at gynnal a gwella bioamrywiaeth ledled yr ystad fwyngloddio etifeddol yng Nghymru lle mae tomenni nas defnyddir wedi'u lleoli neu ar dir yn y cyffiniau. Gan, yn eu tro, hyrwyddo cydnerthedd ecosystemau.

**Cynyddu cydnerthedd ein hamgylchedd naturiol**

**10. A yw eich cynnig yn cyfrannu at feithrin cydnerthedd ein hecosystemau?**

- A yw'n gweithio gyda natur, ac yn ystyried defnyddio atebion ar sail natur yn bennaf oll?
- A yw unrhyw atebion ar sail natur yn gynhenid ac yn fioamrywiol?
- A all adfer neu gyfrannu at adfer cynefinoedd wedi'u dirywio?
- A all gyfrannu at feithrin rhwydweithiau ecolegol cydnerth o gynefinoedd?
- A yw'r cynnig yn gwella rheoli safleoedd i wella cyflwr cynefinoedd neu rywogaethau ar **unrhyw** raddfa? e.e. plannu rhywogaethau cynhenid, darparu ardaloedd o flodau gwyllt i beillwyr, gadael ardaloedd o wair heb ei dorri; a gwella cysylltedd rhwng cynefinoedd gwerthfawr?

Mae'r ecosystemau unigryw, sensitif ac yn aml ffyniannus a gynhelir gan domenni glo nas defnyddir yn dra hysbys, a chydnabyddir eu bod yn cynnal cynefinoedd a bywyd gwyllt o gryn bwysigrwydd lleol, rhanbarthol a chenedlaethol.

Bydd y system newydd yn diogelu cynefinoedd presennol yn anuniongyrchol ac yn cefnogi cynnal a gwella rhwydweithiau ecolegol cydnerth yn unol â dyletswyddau statudol yr Awdurdod ac yng nghyd-destun polisi cenedlaethol ar y materion hyn, trwy leihau'r tebygolrwydd o ansefydlogrwydd tomenni a sefydlu arferion rheoli tir gwell.

Bydd yn sefydlu ac yn annog arfer gorau mewn rheoli tomenni nas defnyddir yng Nghymru gyda manteision cysylltiedig eang a allai gynnwys codi ymwybyddiaeth o bwysigrwydd bioamrywiaeth.

**11. A yw eich cynnig yn cyfrannu at greu cynefinoedd newydd?**

- A yw eich cynnig yn cefnogi creu cynefinoedd newydd, megis perllannau lleol, gwrychoedd cynhenid, dolydd blodau gwyllt neu ardaloedd eraill o fannau gwyrdd cynhenid bioamrywiol?
- A all creu cynefinoedd gyfrannu at ddatblygu rhwydweithiau ecolegol cydnerth?

Ni fydd y system newydd yn cyfrannu'n uniongyrchol at greu cynefinoedd newydd; fodd bynnag, bydd yn cefnogi creu cynefinoedd newydd yn anuniongyrchol drwy wella arferion rheoli ar yr ystad fwyngloddio etifeddol yng Nghymru lle mae tomenni nas defnyddir wedi'u lleoli.

**Mynd i'r afael â phwysau allweddol ar rywogaethau a chynefinoedd**

**12. A fydd y cynnig yn cael unrhyw effeithiau negyddol ar gynefinoedd neu rywogaethau drwy**

- newid defnydd tir?
- achosi llygredd aer, dŵr, golau, sŵn neu ddirgryniad?

Ni ragwelir unrhyw effeithiau negyddol ar gynefinoedd neu rywogaethau mewn cysylltiad â'r cynigion.

Lle mae angen gweithrediadau oherwydd bygythiad i les dynol, gallai fod achosion lle bydd effeithiau sy'n gysylltiedig â gweithrediadau o'r fath yn digwydd (e.e. llygredd sŵn, dirgryniad a draenio). Fodd bynnag, bydd penderfyniadau a wneir fel rhan o'r gyfundrefn y mae'r Bil yn ei chyflwyno yn sicrhau y bydd gweithrediadau arfaethedig yn cael eu cyflawni yng nghyd-destun polisi cenedlaethol ar y materion hyn.

Nod y system yw lleihau tebygolrwydd gweithrediadau o'r fath trwy fonitro a rheoli tomenni nas defnyddir yn briodol. Yn ogystal, nod y gyfundrefn yw lleihau'r tebygolrwydd o fethiannau tomenni.  Bydd hyn yn lleihau effeithiau negyddol ar ecosystemau.

**13. A oes cydymffurfio â'r holl ddeddfwriaeth sy'n ymwneud â'r pwysau ar rywogaethau a chynefinoedd? Byddai hyn yn cynnwys:**

- Rheoli llygredd
- Rhywogaethau estron goresgynnol
- Systemau Draenio Trefol Cynaliadwy
- Newid Hinsawdd ac ati.

Rhaid i'r Awdurdod fel awdurdod cyhoeddus o dan Ddeddf yr Amgylchedd (Cymru) 2016 geisio cynnal a gwella bioamrywiaeth wrth arfer ei swyddogaethau mewn perthynas â Chymru, ac wrth wneud hynny hyrwyddo cydnerthedd ecosystemau, i'r graddau sy'n gyson ag arfer y swyddogaethau hynny'n briodol.

Yn y gwaith o ddatblygu'r Bil, mae deddfwriaeth amgylcheddol wedi cael ei hystyried yn fanwl gan Lywodraeth Cymru, Comisiwn y Gyfraith a chan Brifysgol Birmingham Rhoddwyd ystyriaeth i feysydd gan gynnwys rheoli gwastraff, trwyddedu amgylcheddol, diogelu cynefinoedd, asesiadau ecolegol, a gofynion cadwraeth.

Roedd y Papur Gwyn Diogelwch Tomenni Glo (Cymru) yn destun ymgynghoriad cyhoeddus 12 wythnos yn 2022, ac yn ystod hynny cafwyd ymatebion ar ddeddfwriaeth amgylcheddol gan randdeiliaid, diwydiant ac arbenigwyr pwnc.

**14. Sut bydd unrhyw effeithiau negyddol yn cael eu lliniaru?**

- A yw dulliau system gyfan ac atebion cynhenid, bioamrywiol ar sail natur wedi'u defnyddio i leihau llygredd a lliniaru newid hinsawdd?
- A yw eich cynnig yn defnyddio arfer gorau ar gyfer rheoli amaethyddiaeth, pysgodfeydd, coedwigaeth ac adeiladu yn gynaliadwy?
- A yw eich cynnig yn cynnwys camau gweithredu i gefnogi peillwyr?

Rhaid i’r Awdurdod fel awdurdod cyhoeddus o dan Ddeddf yr Amgylchedd (Cymru) 2016 geisio cynnal a gwella bioamrywiaeth wrth arfer ei swyddogaethau mewn perthynas â Chymru, ac wrth wneud hynny hyrwyddo cydnerthedd ecosystemau, i'r graddau sy'n gyson ag arfer y swyddogaethau hynny'n briodol. Bydd y gyfundrefn newydd a gyflwynir gan y Bil yn sefydlu ac yn annog arfer gorau wrth reoli tomenni nas defnyddir yng Nghymru. Bydd hyn yn lliniaru yn erbyn yr effeithiau posibl a'r tebygolrwydd o fethiannau tomenni nas defnyddir a allai niweidio a/neu aflonyddu ar fioamrywiaeth yng Nghymru.